# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Mai 2024 – Cyfrol 9 – Rhifyn 8

## Busnes newydd yn y pentre

**DIWRNOD AGOR – fore Sadwrn, 4 Mai, 11 y bore tan 4 y pnawn. Dewch draw – bydd y Prosecco yn llifo.**




Gyda hen siop y cigydd yn wag, bu Graham a minne'n meddwl am dipyn o amser beth fyddai'n digwydd iddo. Dechreuon ni sôn am y BETH PETAI?? Yn sydyn roedd Tŷ Ceffyl Bach yn digwydd a daeth celf pedolau yn beth pwysig. Wrth i'r fenter ddod yn ei blaen, mae ein ffrindiau hynod dalentog wedi ymuno â ni (heb fod mewn unrhyw drefn benodol):

Vale Crafts – Garry Hession, Llanynys
Maggie's Art – Maggie Roberts, Sir Amwythig
Townscraft Pottery – Kevin, Exmoor
Copperlode – Helen Murphy, Llandyrnog
Claremont Crafts – Kate Carmen, Llanychan

Ac mae rhagor hefyd – rhaid cadw ambell syrpréis! Dwi hefyd wedi prynu cardiau, mygiau, matiau diodydd, llieiniau sychu llestri a llawer rhagor.

Edrychwn ymlaen atoch chi i gyd yn ymuno â ni ac yn mwynhau'r crefftau rhyfeddol hyn gymaint ag yr ydyn ni'n dau yn eu mwynhau. Bydd y siop ar agor o 11 y bore tan 4 y prynhawn, dydd Mawrth tan ddydd Sadwrn. Ffoniwch os hoffech chi ddod draw rywbryd arall.

*Angie Hughes*



*Mi fydd ceffyl bach ar werth!*

*Dymuniadau da i Angie a Graham â'u menter. Ewch i'r siop a rhannwch ei manylion â'ch ffrindiau a'ch perthnasau ar eich cyfryngau cymdeithasol.*

# Pytiau newyddion y pentre

Rhagor o lwyddiannau ym myd y campau gan bobl ifanc ein pentre: Bu Elen McCoole-Jones yn cystadlu yn y Pencampwriaethau Nofio Cenedlaethol yn Abertawe dros wyliau'r Pasg. Cafodd ei hamser personol gorau yn ei chystadlaethau. Roedd Ted Conry yn aelod o dîm hoci bechgyn dan 14 Ysgol Brynhyfryd a enillodd bencampwriaeth Cymru yng Nghaerdydd. Daeth Ted yn ail hefyd yn nhwrnamaint gwyddbwyll Ysgol Brynhyfryd. Roedd Efa Roberts yn aelod o dîm hoci merched dan 18 Ysgol Brynhyfryd a fu'n chwarae yng ngemau cyn-derfynol pencampwriaeth Cymru yn Abertawe ac wedi chwarae'n arbennig o dda. Llongyfarchiadau i'r tri ohonyn nhw.

Llwyddiant arall ym myd y campau oedd tîm dartiau'r Golden Lion yn ennill Cynghrair B 9-bob-ochr a Nicky Ward yn cael y sgôr uchaf yn y Gynghrair B – 130. Llongyfarchiadau iddyn nhw hefyd!

Llongyfarchiadau i Ben Jones, Penprys ar raddio mewn fforenseg ac astudiaethau plismona o Brifysgol John Moores, Lerpwl.

Diolch yn fawr i Michael a Jane Williams unwaith eto am addurno'r llewod gyda hetiau Pasg – mae hyn bob amser yn codi gwên!

Trist yw cofnodi marwolaeth y Newrolegydd Ymgynghorol Dr. Gareth Llewelyn, Bsc, MD, FRCP yn ddim ond 66 oed, wedi gwaeledd byr. Cafodd ei fagu yn Y Glog, Llandyrnog a'r teulu yn ffyddlon iawn i Gapel y Dyffryn. Daeth yn niwrolegydd o bwys ac yn 2021 derbyniodd yr MBE am ei wasanaeth i feddygaeth. Cydymdeimlwn yn fawr â Mrs Eleanor Llewelyn a'r teulu oll.

Cododd apêl eglwys St Tyrnog tuag ag WaterAid £198 a'r bore coffi £580 – diolch o galon i bawb am eich cefnogaeth hael.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ataf ar achlysur fy mhen blwydd yn 90 oed. Diolch am y rhodd hael gan y Capel. Diolch hefyd am y cyfarchion, cardiau ac anrhegion; ac i'r rhai a ymwelodd â mi yn Cilgwyn.
Rwyf yn gwerthfawrogi'r cyfan.
Menna Davies



*Menna (Bancar gynt), yn y canol yn y rhes flaen, yn dathlu ei phen blwydd gyda'i chwaer, Helen, a'i meibion Gwyn, Alan a Hywel a'u teuluoedd.*

**Townsend Supplies**
**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**
**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Mercher | 1af | Pilates 7–8pm |
| Sadwrn | 4ydd | Grŵp crefftau, 10am–4pm |
| Llun | 6ed | Parti pen blwydd |
| Mercher | 8fed | Pilates 7–8pm |
| Sad | 11eg | Bore coffi – Cymorth Cristnogol, 10–11.30am |
| Sul | 12fed | Llan Llanast 3.30–5pm |
| Llun | 13eg | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mawrth | 14eg | Pwyllgor y Sioe Flodau, 7pm |
| Mercher | 15fed | Y Gymdeithas Hanes. Siaradwraig – Wendy Grey Lloyd, 7pm |
| Iau | 16eg | Pilates 7–8pm |
| Sul | 19eg | Ffair grefftau, 10am–3pm |
| Llun | 20fed | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mercher | 22ain | Pilates 7–8pm |
| Iau | 23ain | Cyfarfod blynyddol pwyllgor Neuadd y Pentre, 7pm |
| Sad | 25ain | Bore coffi – Sefydliad DPJ a'r Ambiwlans Awyr, 10am |
| Mercher | 29ain | Cyfarfod Sefydliad y Merched |

**I hurio'r neuadd, cysylltwch ag Ivan Butler ar 07799 570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com.**

**BORE COFFI**
**Dydd Sadwrn, 25 Mai**
**10:00 – 11:30**
**Neuadd y Pentre**

Elusen Ambiwlans Awyr CYMRU | WALES Air Ambulance Charity

THE DPJ FOUNDATION

**Derbynnir yn ddiolchgar roddion at y stondin cynnyrch cartref**

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Mer | 1af | Cyfarfod Pwyllgor *Llais Llandyrnog*, 7pm |
| Iau | 2il | Etholiad: Comisiynydd Heddlu a Throseddu, 7am–10pm |
| Llun | 6ed | Trefoil Guild, 2pm |
| Maw | 7fed | Sefydliad y Merched, 7pm |
| Mer | 8fed | Undeb y Mamau 2pm |
| Llun | 13eg | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | 14eg | Clwb Llyfrau, 10–11am |
| Mer | 15fed | Tuesday Club, 2pm |
| Llun | 20fed | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | 21ain | Cyngor Cymuned, 7pm |
| Maw | 28ain | Clwb Llyfrau, 10–11am |

*I logi'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

## Gwasanaethau eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| 5ed | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| 12fed | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| | 3.30 pm | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 19eg | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| 26ain | 11.15am | Boreol Weddi |

## Gwasanaethau Capel y Dyffryn

| | | |
|---|---|---|
| 5ed | 9.45 | Parch. Andras Iago |
| 12fed | 10.00 | Cymorth Cristnogol |
| 19eg | 10.00 | Oedfa'r fro – Gellifor |
| 26ain | 11.00 | Parch. Andras Iago |

Bydd cyfarfod nesa Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan yn Neuadd y Pentre nos Fercher, 15 Mai am 7 o'r gloch. Wendy Grey Lloyd fydd yn rhoi sgwrs am hanes plant o Guernsey a ddaeth i fyw i Ddinbych yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

# Ysgol Bryn Clwyd

Er mai dim ond am ychydig wythnosau rydyn ni wedi bod yn ôl yn yr Ysgol ar ôl gwyliau’r Pasg, mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn.



Daeth disgyblion Blwyddyn 3 o Fryn Clwyd â Blwyddyn 3 Ysgol Gellifor at ei gilydd i gyfarfod â ffrindiau newydd a chael llawer o hwyl.



Mwynhaodd blynyddoedd 4, 5 a 6 daith i Ganolfan yr Urdd yng Nglan Llyn lle buon nhw’n adeiladu rafftau, canwio, cyfarfod â thylluanod, dringo rhaffau uchel, a llawer rhagor!

# Ysgol Bryn Clwyd: parhad



Daeth Nel, ein ci lles, i'n gweld ni am y tro cyntaf. Bydd hi'n dod i'r ysgol bob wythnos.

# Cynghrair yr Haf

Gemau tîm pêl-droed Llandyrnog yng Nghynghrair yr Haf, Llandyrnog a'r Cyffiniau:

Iau 2ail: Llandyrnog v Ysceifiog

Mawrth 7fed: Henllan v Llandyrnog

Iau 9fed: Llandyrnog v Rhewl

Llun 13eg: Llandyrnog v Trefnant

Iau 16eg: Llanfair v Llandyrnog

Llun 20fed: Llandyrnog v Cefn

Iau 23ain: Llandyrnog v Caerwys

Mawrth 28ain: Llangynhafal v Llandyrnog

Iau 30ain: Llandyrnog v Clawddnewydd

Dewch i gefnogi ein tîm!

**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

# Sioe Llandyrnog

Bydd Sioe Flodau a Chynnyrch eleni ddydd Llun 26 Awst ac rydyn ni'n chwilio am noddwyr ar gyfer dosbarthiadau unigol. Gallwch dalu drwy drosglwyddo arian i gyfrif banc y neuadd: Llandyrnog Village Hall, cyfrif didoli 40-19-12, rhif y cyfrif 51157698. Fel cyfeirnod gyda'r taliadau, **defnyddiwch yr enw yr hoffech iddo fod yn y rhaglen**.

Fel arall, gallwch dalu mewn arian parod i unrhyw aelod o bwyllgor y Sioe, neu cysylltwch â'r ysgrifennydd, Roger Warner ar llandyrnogshow@gmail.com. Os hoffech noddi dosbarth penodol, fe wnawn ein gorau i sicrhau hyn.




hg web designs

rydym ni'n creu... we create....

gwefannau - websites!

www.hgwebdesigns.co.uk

01678 520882
07984 511164

Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.

Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.

hannah@hgwebdesigns.co.uk

# Hanesion Hazel

Mae hi'n ddigon cynnes, o'r diwedd, felly fydd dim angen rhoi rygiau trwm ar Bob – hwrê! Ar fore heulog braf, rwy'n hoffi ei hel allan i'r cae yn 'noeth'; mae wrth ei fodd yn rholio ac mae'n helpu i gael gwared ar ei hen got gaeaf. Mae gwallt gwyn yn y cae lle mae o wedi bod yn rholio. Yn ôl hen ddywediad, mae ceffyl yn werth can punt bob tro mae'n gallu rholio drosodd. Mae hefyd yn arwydd o geffyl iach gan fod angen iddo fod yn ystwyth i rolio drosodd. I helpu i dynnu'r gwallt, rwy'n defnyddio crib. Mae'n dod allan mewn sypiau ac rwy'n gadael y gwynt i fynd â'r rheini. Dwi wedi gweld adar yn ei hel yn eu pigau i'w roi yn eu nythod. Mae'n hyfryd meddwl bod gwallt Bob yn cadw cywion bach yn gynnes



braf. Dull natur o ailgylchu, mae'n siŵr.

Mae adar yn defnyddio pob math o bethe i greu nyth, gan ddefnyddio gwlân defaid, brigau bach, mwsogl a phlu, ond dwi hefyd wedi gweld nythod â darnau plastig, cortyn a phethau wedi'u gwneud gan ddyn. Mae adar yn gwneud sawl math o nythod gwahanol, o dyllau syml yn y ddaear i nythod crefftus iawn. Mae'r maint yn dibynnu ar faint yr adar a faint o wyau mae wedi'i ddodwy. Mae gan bob aderyn ei arddull pensaernïol ei hun, o beli tyn o frigau bach wedi'u plethu i nyth titw cynffon hir sydd wedi'i leinio â mwsogl, a hyd yn oed nyth bach bach y dryw, â thwll i fynd i mewn iddo sy'n llai na 2.5cm ar ei draws. Mae'r dryw wrth ei fodd yn adeiladu ei nyth yn yr iorwg tyn sy'n tyfu ar hyd y ffens.

Ond yn fy marn i, y nyth sydd wedi'i saernïo'n fwyaf cymhleth yw nyth y wennol. Mae'r wennol yn glynu darnau mân o fẁd at ei gilydd i greu powlen sy'n hongian o drawstiau'r stabl. Mae'r nythod hyn fel concrit ac mae rhai wedi'u defnyddio ers sawl blwyddyn, gyda'r gwenoliaid yn dychwelyd i'r un nythod y naill flwyddyn ar ôl y llall.

Roeddwn i'n falch o weld y gwenoliaid yn dychwelyd ar 12 Ebrill. Fe sylwais yn sydyn ar ddau yn gwibio i fyny ac i lawr dros y tŷ ac yn hedfan i mewn ac allan o'r stabl. Dyna arwydd pendant bod yr haf yn dod.

Dwi hefyd wedi sylwi ar robin goch yn addasu hen nyth gwennol yn niogelwch y grisiau – mae hi wedi ychwanegu ei ddewis o ddeunydd i'r nyth rhwng y nyth a'r llawr pren uwch ei ben. Mae'n fan mwy diogel, o gyrraedd y boda, y bioden a'r frân furgyn – *carrion crow*, sy'n methu ei gyrraedd. Dwi heb weld lle mae'r sigl-di-gwt brith yn nythu eto. Fel arfer mae mewn lle od iawn – mewn sgip, ar y grisiau i'r sgubor wair, byth mewn lle normal.

Mae'r barcutiaid coch wedi bod yn hedfan yn uchel uwch ben y tŷ – maen nhw'n ddigon hawdd eu hadnabod gyda'u cynffon fforchog. Mae'r petrys coesgoch wedi dychwelyd am flwyddyn arall i nythu yn y glaswellt hir yn yr ardd. Maen nhw'n adeiladu gwâl yn y ddaear o dan y gwrych, ac mae'r betrisen yn gori ar tua 15 o wyau bach iawn. Gobeithio wir y byddan nhw'n byw.

Hazel

Clywyd y gog uwchben Gader Goch yn ystod wythnos olaf mis Ebrill. Mae'r haf ar ddod!



# Cyfarfod Cyhoeddus Prosiect Shop a Swyddfa Bost Llandyrnog

Braf oedd croesawu pobl i Neuadd y Pentref i glywed y newyddion diweddaraf am Brosiect y Siop Gymunedol a Swyddfa'r Post nos Fercher, 17 Ebrill. Yn ogystal â diweddaru pawb ar ble rydym wedi cyrraedd ers i'r pryniant fynd drwodd ar 9 Chwefror o ran gwaith adeiladu ac adnewyddu, roedd yn wych gallu rhannu'r cynlluniau a oedd ar gael i'w harddangos.

Roeddem hefyd yn falch iawn o allu cyflwyno ein cyfarwyddwr mwyaf newydd – Patrick Keefe, sy'n dod â chyfoeth o brofiadau i'r prosiect ac rydym yn croesawu ei gyfraniad yn fawr. Mae cyfle bob amser i eraill ymuno â'r tîm fel cyfarwyddwr a fydd yn helpu i roi amrywiaeth a hefyd rhannu'r llwyth gwaith wrth i ni symud ymlaen ar ran nesaf ein taith.



Ar ôl ein hatgoffa am beth sydd wedi digwydd ers y cyfarfod cyntaf ar 26 Mai 2022, rhoddodd Jackie fanylion am sut y byddai'r prosiect yn darparu nid yn unig siop a swyddfa bost, ond man cyfarfod cymunedol. Cyflwynwyd y cyfle i ddod yn gyfarwyddwr neu'n wirfoddolwr i helpu'r prosiect ac rydym wrth ein bodd bod rhai gwirfoddolwyr wedi dod ymlaen i helpu i dacluso gardd gefn y siop – mwy o gyfle i eraill ymuno ddim ond i chi gysylltu â ni.

Rhoddodd Patrick gipolwg i ni ar pam y gwnaeth y penderfyniad i gamu ymlaen a dod yn un o gyfarwyddwyr y prosiect a gobeithiwn y bydd ei eiriau'n ysbrydoli eraill i ddod gyda ni ar ein taith.

Arweiniodd Ivan sesiwn Holi ac Ateb gyda nifer o gwestiynau am y cynlluniau newydd ar gyfer y siop a'r olwg allanol newydd arfaethedig.

Gofynnodd aelod o'r cyhoedd a oedd yn dal i fod yn bosibl prynu cyfranddaliadau cymunedol. Mae hyn yn bosibl, a byddwn yn agor dolen gyflym o'n gwefan i wneud hyn yn hawdd. Bydd yn galluogi pobl a gollodd y lansiad cychwynnol i ddod yn gyfranddaliwr. Atgoffwyd cyfranddalwyr i roi gwybod i ni os oes unrhyw newidiadau yn eu manylion cyswllt ac os oedd rhywun wedi prynu cyfranddaliadau ar ran plant i roi gwybod i ni pan fyddant yn cyrraedd 16 oed ac yn ennill hawliau pleidleisio.

Cadwch lygad ar ein tudalennau Facebook a'n gwefan wrth i'r gwaith ar yr adeilad barhau.

*Emyr Morris*

**GLYN EVANS AUTOCLINIC**

**Canolfan Trwsio Ceir**

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA

GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

**01745 815141**
**07808970364**

# Her camau mis Mawrth

Roeddwn i wedi ystyried cymryd rhan yn yr ymgyrch cerdded dros ganser y prostad y llynedd, a phan ddaeth y cyfle i gofrestru gydag ymgyrch *March the Month* eleni, penderfynais roi cynnig arni. Mae *March the Month* yn her sy'n golygu cerdded 11,000 o gamau y dydd – mae'r rhif yma'n cynrychioli'r 11,000 sy'n cael eu lladd gan ganser y prostad bob blwyddyn yn y DU. Ar ôl cofrestru, ces i dudalen JustGiving ac i ffwrdd â fi ar 1 Mawrth. Gosodais darged o £250 a rhoi gwybod i bawb am fy her a'r elusen drwy fy nghyfryngau cymdeithasol. Mae'n syndod faint rydw i'n cerdded yn ystod diwrnod arferol o weithio, ond os oeddwn i heb wneud digon o gamau yn ystod y dydd, byddwn i'n mynd allan yn nosweithiau tywyll mis Mawrth gyda fy nhortsh a fy siaced lachar. Ar benwythnosau byddwn yn gwneud y gorau o'r llwybr gwych a'r golygfeydd sydd o gwmpas Llandyrnog a Bryniau Clwyd.

Wrth ysgrifennu hwn, y cyfanswm yw £2,155 – swm anhygoel. Daeth y rhan fwyaf o'r arian trwy'r dudalen JustGiving ond fe ges i gyfraniadau hael iawn mewn arian parod hefyd.

Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni, ond fy her yn bennaf oedd codi ymwybyddiaeth o'r afiechyd erchyll yma. Fel arfer, dydy dynion ddim yn hoff iawn o fynd i weld y doctor, yn enwedig os yw'n fater reit bersonol. Felly, hogie, peidiwch ag anwybyddu unrhyw broblemau, ewch i weld eich doctor cyn gynted ag y gwelwch chi rywbeth anarferol, beth bynnag ydi o.

Diolch o galon unwaith eto,

Merfyn Parry

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Hwb Llandyrnog 2024

Agorodd yr Hwb am y tro cyntaf eleni ddydd Mercher, 17 Ebrill. Roedd hi'n ddiwrnod braf ac oer, ond roedd ein gwresogyddion newydd yn gweithio'n wych ac yn ein cadw'n gynnes. Roedd pawb a gafodd y cawl yn dweud ei fod yn flasus iawn. Eleni rydyn ni hefyd yn gwerthu llysiau organig ffres.

Yn anffodus roedd digwyddiadau rheolaidd eraill yn y pentre ar yr un diwrnod, felly roedd hynny o raid yn lleihau nifer yr ymwelwyr. Felly, byddwn yn agor y tro nesaf ddydd Mercher, 29 Mai, sydd yn ystod gwyliau hanner tymor yr ysgol. Dewch draw i gael paned gyda ni.




# CPD Llandyrnog

Mae tîm pêl droed Llandyrnog yn falch o gyhoeddi mai Liam Nash yw ei hyfforddwr Newydd. Bydd Liam yn ymuno â'r clwb pan fydd wedi gorffen y tymor gyda CPD Tref Dinbych, lle mae'n rheolwr yr ail dîm ar hyn o bryd. Mae Liam wedi cael tymor llwyddiannus iawn yn Ninbych, ac ar hyn o bryd mae'r tîm yn y drydydd safle mewn cynghrair gystadleuol iawn. Pob dymuniad da i Liam.

# Sgwrs dros y gwrych

Dwi ddim yn mynd i sôn am y tywydd, dim ond deud fy mod wedi cael diwrnod yn yr ardd heddiw gan ei bod wedi sychu dipyn bach a ddim wedi bwrw chwaith. Mae hi yn Ebrill 19 arna i yn sgwennu hwn a dwi ddim wedi plannu dim byd yn yr ardd lysiau eto! Ond dyne ni, fedrwn ni ddim gneud ddim byd am y tywydd na fedrwn.




Den ni'n hoff iawn o bys a ffa yma ac yn trio gofalu fod ne ddigon yn y rhewgell i gadw ni fynd dros y Dolig o leiaf. Fydda i'n eu cychwyn nhw mewn celloedd plastig bach tua modfedd sgwâr, un ffäen (ar ei chylleth) a tair pysen i bob un. Mewn chydig o wythnosau maen nhw tua thair modfedd o uchder gyda gwraidd da. Dwi'n ffeindio eu bod yn cael cychwyn da ac yn cael llonydd gan adar bach wrth wneud hyn. Wedyn eu plannu allan gan wneud twll bach gan bwyso coes rhaw wedi torri lawr tua modfedd a hanner i'r pridd a'u disgyn nhw i mewn a dyna ni. Erbyn hyn maen nhw tua dwy i dair modfedd gyda gwraidd da.

Dwi'n plannu ffa rhyw dair modfedd oddi wrth ei gilydd mewn siâp domino sef pedwar ac un yn y canol, a'r pys mi fyddaf yn plannu'r gell o dair mewn rhes ddwbwl tua phedair modfedd oddi wrth ei gilydd. Mae **Early Onward** yn un da er mwyn ei blannu yn gynnar ac wedyn **Onward** nes ymlaen.

Fel arfer mi fydda i'n cychwyn ffa ym mis Tachwedd o gwmpas diwrnod Guto Ffowc er mwyn cael crop cynnar yn y Gwanwyn, eto yn cychwyn nhw mewn celloedd a'u plannu allan fel arfer. Maen nhw yn sefyll y gaeaf yn dda ac yn rhoi crop cynnar iawn. Mi fedrwch chi fod yn bwyta'r rhain cyn bod y rhai Gwanwyn wedi hanner dyfu. Y siortyn ore i'w hau ym mis Tachwedd yw **Aquadulse Claudia,** un gynnar i'r Gwanwyn ydi **De Monica** ac wedyn mi fydda i'n hoffi **Bunyards Exhibition.**

I bys a ffa bydda i'n rhoi polion bach bob rhyw bum troedfedd bob ochor i'r rhes a gosod cortyn *bales* o bolyn i bolyn bob tua rhyw ddeg modfedd. Dwi'n ffeindio bod hyn yn hawdd i'w cadw nhw i fyny ac yn gneud nhw'n hawdd i'w hel. Bydda i wrth fy modd yn cerdded rhwng y rhesi ar fin nos a'i bwyta nhw yn amrwd.

Mae'r celloedd hefyd yn *ideal* i nionod a betys. Dwi'n trio hau'r nionod ym mis Ionawr, rhyw bedwar neu bump hadyn i bob cell a'u plannu allan fel cell. Maen nhw'n tyfu mewn clwstwr ac yn chwyddo yn ara deg yn gwmpeini i'w gilydd (dwi'n meddwl). Nionod **Santero F1** sydd yn gneud yn dda i mi. Dydyn nhw ddim yn mynd yn rhy fawr ac yn cadw'n dda trwy'r gaeaf. Mae betys hefyd yn gneud yn dda mewn clwstwr, does ddim angen eu teneuo felly dim wast. **Boltardy** sydd yn siortyn da, dwi wedi trio rhai eraill ond mynd yn ôl i'r hen ffefryn fydda i.

Dwi'n mawr obeithio fod y tywydd yn gwella o hyn ymlaen. Dwi ddim yn meddwl y byddwn yn dal i fyny eleni ond tyfu mae pethau ac yn ein siomi ar yr ochor orau.

Fel maen nhw'n deud "mi ddaw rhywbeth ar ôl hyn, 'sa ddaw egin, mi ddaw chwyn."

Mwynhewch yr ardd


John Mel (Rowlands)

# Uwchraddio eich rhwydwaith band eang

Mae tai yn y pentre yn gymwys ar hyn o bryd i gael cyllid gan lywodraeth y Deyrnas Unedig i wella'u band eang o dan y Cynllun Talebau Band Eang Gigabeit. Gallwch hawlio taleb gwerth £4,500 fel cyfraniad at adeiladu rhwydwaith band eang ffeibr cyflawn tra-chyflym ar gyfer eich cymuned.

Dyma'r chwe cham i gael band ffeibr cyflawn tra-chyflym:

- Mynd i'r wefan ac addo eich taleb fel cyfraniad at darged y gymuned
- Cymell eraill i wneud yr un peth
- Byddwch yn cael e-bost gan lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddilysu eich taleb
- Byddwn yn dechrau adeiladu ar ôl cadarnhau ein bod wedi cael digon o dalebau




- Archebu gwasanaeth ffeibr cyflawn pan fydd ar gael
- Cadarnhau eich cysylltiad drwy e-bost gan lywodraeth y Deyrnas Unedig


Am ragor o fanylion, ewch i openreach.co.uk/connectmycommunity

# Llan Llanast

Yn ein sesiwn mis Ebrill, dysgom nad yr adeilad ei hun ydi'r Eglwys mewn gwirionedd, er mor hardd ydi hi.  Pobl sy'n gwneud Eglwys, ac felly ein thema oedd 'Ni ydi'r Eglwys'. Gwnaethom ni addurno bisgedi siâp pobl, a phobl celf crafu, a gwnaethom ni ffenestri gwydr lliw, bach a mawr! Yna gwnaethom ni weithgaredd hyfryd – gwneud eglwys o amlen a gosod y bobl wedi eu gwneud o briciau lolipops yn yr amlen.

Bydd y sesiwn nesa bnawn dydd Sul, 12 Mai – croeso i bawb, ond blant, dewch ag oedolyn gyda chi.






# Undeb y Mamau

Yn ein cyfarfod mis Ebrill, daeth gwirfoddolwyr o 'Cŵn Therapi Ledled y Wlad' atom ni, ac fe gawsom ni sgwrs ddiddorol iawn am eu gwaith. Maen nhw'n ymweld ag ysbytai, hosbisau, cartrefi gofal, ysgolion a charchardai, lle mae'r cŵn yn cynnig cysur a chefnogaeth i amrediad o bobl. Daethon nhw â Barney, un o'r cŵn gyda nhw, a fe oedd prif atyniad, fel y gwelwch o'r llun!






# Tuesday Club



Y siaradwraig wadd yng nghyfarfod mis Ebrill y Tuesday Club oedd Gwen Davies. Mae Gwen a'i gŵr, Rhys, wedi sefydlu gwinllan lewyrchus, Gwinllan y Dyffryn, wrth droed Bryniau Clwyd, rhwng Llandyrnog a Bodfari. Roedd hon yn dipyn o fenter, ond mae'r hinsawdd dyner a'r tir amaethyddol o'r safon uchaf yn gwneud lleoliad ardderchog i dyfu grawnwin.

Mae 8000 o winwydd yn tyfu yno, ac mae paratoi'r gwinwydd i roi'r cnwd gorau yn waith caled iawn ac mae'r cynhaeaf yn gofyn am help teulu a ffrindiau i hel y grawnwin â llaw.

Mae Gwinllan y Dyffryn eisoes wedi ennill nifer o wobrau gan Gymdeithas Gwinllannoedd Cymru gyda'r Vale Solaris – gwin gwyn, y Vale Rondo – gwin rosé, a gwin rosé pefriog y Dyffryn. Mae Gwen erbyn hyn yn gweithio'n llawn amser yn rheoli'r gwinwydd a'r busnes. Mae hi wedi datblygu teithiau tywys o gwmpas y winllan, sy'n cynnwys blasu pedwar math o win a chael platiaiad o gawsiau yn y sgubor sydd wedi'i adnewyddu yn bwrpasol ar gyfer hyn, neu ar y patio sydd â golygfeydd hyfryd ar draws y dyffryn. Weithiau mae drws y selar ar agor i werthu gwin – edrychwch ar y wefan: valevineyard.co.uk a thudalen Facebook y winllan am fanylion.

Roedd mis Mawrth yn fis arbennig i Gwen a Rhys – mynd i dderbyniad yn rhif 10 Stryd Downing a oedd yn dathlu hyrwyddwyr ffermio a bwyd cymunedol (ond wnaethon nhw ddim cyfarfod â Rishi Sunak!) a'r arddangosfa gyntaf o winoedd o Gymru yn Llundain.

Diolchwyd i Gwen am ei sgwrs hynod ddiddorol a chafwyd lluniaeth ysgafn. Tynnwyd y raffl ac atgoffwyd yr aelodau y bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, 15 Mai. Mae croeso cynnes iawn yn disgwyl aelodau newydd!




## Wythnos Cymorth Cristnogol, 12–18 Mai

Gyda'ch help chi, gall Cymorth Cristnogol weithio tuag at fyd lle mae teuluoedd yn gallu dianc rhag tlodi a chyflawni eu huchelgais. Gall cyfraniadau alluogi rhagor o deuluoedd i greu incwm dibynadwy sy'n golygu diogelwch bwyd, iechyd gwell, cartrefi mwy diogel, gwydnwch a gobaith.

**Bore coffi**
**Dydd Sadwrn, 11 Mai**
**10:00 – 11:30**
**yn Neuadd y Pentre**

christian aid

# Sefydliad y Merched Llandyrnog a Llangwyfan




Fe gawson ni gyfarfod difyr arall ym mis Ebrill. Siaradwr y noson oedd Neville Owens o Feiciau Gwaed Cymru a ddaeth aton ni gyda'i gyd-weithwyr Huw, Wayne a Clive. Fe gawson ni gyflwyniad diddorol iawn a chyfle i dynnu lluniau wrth eistedd ar y motobeic!

Fe ddysgon ni sawl ffaith ddiddorol:

- Sefydlwyd y Beiciau Gwaed mewn tŷ yn Llundain yn 1962
- Ddaeth y beiciau gwaed ddim i Gymru tan 2011
- Mae timau Wrecsam a Bangor yn gweithio 24 awr y dydd
- Yn 2020 teithiodd y timau 440,000 o filltiroedd
- Mae pob beiciwr a rheolwr wedi cael hyfforddiant dwys ac yn wirfoddolwr ymroddedig
- Mae beicwyr yn cludo gwaed a plasma yn ogystal â llefrith i fabanod sydd wedi'u geni cyn pryd, pelydrau-x brys a meddyginiaeth hanfodol
- Mae Beiciau Gwaed yn cefnogi'r Ambiwlans Awyr ger safleoedd digwyddiadau difrifol
- Enillodd y Beiciau Gwaed Wobr Elusennau Cymru yn 2019 a Gwobr y Frenhines yn 2021 am wasanaethau yn ystod COVID
- Mae enw ar bob beic – rhoddwyr i'r elusen sydd wedi eu henwi: Netty D, Chloe Lou, Carina a Buddy
- Mae'r tîm yn fodlon rhoi sgwrs a dangos y beiciau mewn unrhyw ddigwyddiad. Cysylltwch â nhw drwy www.bloodbikes.wales
- Bydd diwrnod cenedlaethol Beiciau Gwaed ddydd Gwener, 9 Awst – gwnewch eich gorau i gyfrannu at y gwasanaeth gwych yma.

Bydd ein cyfarfod nesaf nos Fawrth, 7 Mai yn yr Ystafelloedd Coco – croes i bawb. Rhian Pierce o'r RSPB fydd y siaradwraig wadd, a bydd paned a bisged a raffl fel arfer!

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*

# Trefoil Guild

Yn ein cyfarfod diwethaf buon ni'n chwarae'r gêm gardiau, *Happy Families*. Daeth cadeirydd y sir i'n gweld ni i ddiolch am y lluniaeth a ddarparwyd gennym i'r gwesteion yng Nghyfarfod Blynyddol Cymru y Trefoil Guild yng Nghei Connah. Y siaradwyr gwadd oedd cynrychiolwyr Beiciau Gwaed Cymru a chodwyd dros £800 at yr elusen. Roedd dros 150 o aelodau'n bresennol.



*Ruth Griffith, 2il o'r dde, gyda'i ffrindiau yng nghyfarfod blynyddol y Trefoil Guild*

# Dod i adnabod ... Vicky Lyon

*Y mis diwethaf, cawson ni ychydig o hanes pennaeth Ysgol Bryn Clwyd – dyma gyfle nawr i gyfarfod â'r dirprwy bennaeth.*



**Beth yw dy atgofion cynharaf?**
Fy atgof cyntaf yw chwarae ar stepen drws ein cartref tra oedd Dad yn torri'r glaswellt. Mae arogl glaswellt wedi'i dorri yn dal i ddeffro'r atgof yma hyd heddiw.

**Sut wnest di ddewis dy yrfa?**
Ar ôl i mi fod ar brofiad gwaith mewn meithrinfa pan oeddwn i yn ddisgybl ysgol uwchradd, awgrymwyd fy mod yn hyfforddi i fod yn athrawes. Roeddwn i'n mwynhau gweithio gyda'r plant yn fawr a rhoddodd y tiwtoriaid lawer o ryddid i mi roi cynnig ar gynllunio profiadau dysgu gwahanol. Roeddwn i'n mwynhau hyn yn fawr hefyd.

**Beth sy'n rhoi mwya o bleser i ti fel athrawes yn Ysgol Bryn Clwyd?**
Mae cymaint i'w hoffi am weithio ym Mryn Clwyd – dwi mor lwcus 'ṃod i'n gweithio gyda phobl mor alluog a gofalgar. Mae hefyd yn arbennig iawn i gael plant yn fy nosbarth am bedair blynedd ar y tro. Mae'n golygu fy mod i'n gweld eu heisiau nhw pan maen nhw'n gadael, ond dwi bob amser yn falch ofnadwy ohonyn nhw'n parhau ar eu llwybr dysgu.

**Beth rwyt ti'n hoffi ei wneud pan dwyt ti ddim yn gweithio?**
Dwi'n arbennig o hoff o ddarllen ac mae fy ngŵr a minnau'n hoffi teithio.

**Pwy yw dy arwr?**
Rwy'n ffodus iawn bod gen i sawl arwr. Mae fy rhieni wedi bod yn gefnogol iawn erioed ac rwy'n eu hedmygu nhw gymaint.

Mae gen i atgofion hapus iawn am Mrs Lis Morris, yn fy helpu i ddysgu Cymraeg a ffyrdd o gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, ac roedd pawb bob amser yn hapus iawn i'w gweld hi. Mae gennym ni lwyfan ar fuarth yr ysgol er cof amdani a dwi'n siarad amdani drwy'r amser â'r plant.

Mae Mr Gwilym Evans a'r ddiweddar Mrs Evans yn enghreifftiau o bob peth sy'n dda am fywyd y pentre. Gall pawb ohonon ni ddysgu gan yr ysbryd cymunedol a gofal dros eraill maen nhw wedi'u dangos erioed.

**Beth sy'n dy wneud di'n flin a beth sy'n dy wneud di'n hapus?**
Mae pobl yn peidio â thrin eraill yn garedig ac yn barchus yn fy ngwneud i'n flin, oherwydd dyma ffordd hawdd iawn i wneud gwahaniaeth pendant yn y byd.

Mae pethau bach yn fy ngwneud i'n hapus iawn. Mae cael paned o de, yn gwrando ar yr adar bach yn canu yn fy ngardd yn nefoedd ar y ddaear!

# Paracitiaid



A sôn am adar ... rhag ofn i chi fynd i chwilio am baracitiaid yng Nghoed Llangwyfan, ffrwyth dychymyg ein hawdur straeon Ffŵl Ebrill oedd yr erthygl honno. Er bod yr adar hyn yn bla yn Llundain, does dim angen poeni am Langwyfan am y tro.

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.

# Neges gan ein hoffeiriad

**Gair yn ei bryd ym mis Mai**

Yr adeg hon, dair blynedd yn ôl, roedd cymdeithas yn dechrau symud o gwmpas eto ar ôl y cyfnod clo hir dros y gaeaf. Wrth gwrs, i rai ohonon ni, doedd hyn ddim yn digwydd yn ddigon cyflym, yn enwedig i'r rheini â theulu'n byw mewn rhannau gwahanol o Gymru, gyda llacio'r rheolau ym mis Mai. I sawl un, roedd mis Mai 2021 yn fis arbennig o ddod ag anwyliaid at ei gilydd unwaith eto.


Yn ystod y mis Ebrill cyn hynny, roeddwn i wedi bod ar gwrs i fod yn gaplan ym Myddin Prydain ac wedi cael fy nghomisiynu i fod yn Padre i'r fyddin wrth gefn. Roedd hyn ar ôl proses gyfweld heriol a llym. Un o brif amcanion Padre yw gofalu am anghenion milwyr yn yr uned rydyn ni'n cael ein rhoi ynddi. Un o'r prif anghenion, sydd yn amlwg iawn mewn sefyllfa filwrol, yw anghenion milwyr sydd i ffwrdd am gyfnodau hir ar ymgyrchoedd amrywiol a'r milwyr a'u teuluoedd yn hiraethu am ei gilydd. Wrth reswm, dyna yw eu gwaith nhw, ond yn y bôn mae milwyr yn gwneud hyn er ein mwyn ni, hunan-aberth er lles pobl eraill. Beth bynnag yw'ch barn am y rhyfeloedd mae Prydain yn ymwneud â nhw, heb ryw fath o bersonél i'n gwarchod a'n diogelu, bydden ni'n fregus ac yn agored i fanteisio arnon ni, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Roedd nifer fawr ohonon ni wedi byw gyda chyfyngiadau'r pandemig, yn byw heb gysylltiad go iawn â'n hanwyliaid. O ganlyniad roedden ni, oherwydd yr absenoldeb, yn methu peidio â sylweddoli faint rydyn ni wedi cymryd perthynas agos yn ganiataol, yn rhy aml, a hyd yn oed cyfarfod â phobl bob dydd.

Mewn un ddameg adnabyddus, mae Iesu yn rhannu'r stori am dreulio amser oddi wrth Dduw, fel y gwnaeth llawer ohonon ni yn y cyfnod pan oedden ni wedi gwahanu oddi wrth ein hanwyliaid yn ystod y cyfnod clo, ac fel mae nifer gynyddol o filwyr wedi gwahanu oddi wrth eu hanwyliaid wrth i sefyllfaoedd peryglus codi. Waeth pa mor bell yr awn ni, yn ôl dameg y mab afradlon, waeth faint yr awn ni ar gyfeiliorn a gwastraffu'r daioni a roddwyd i ni, mae Duw bob amser yn disgwyl amdanon ni, a'i freichiau ar led. Mae ei gariad mor gyflawn bydd yn darparu pryd helaeth i ni, nid dim ond ein croesawu ni â breichiau agored, ac yn cadarnhau ein haeddiant gyda llawenydd mawr a maddeuant llwyr. Efallai yr hoffech chi ddarllen yr ysgrythur i'ch helpu chi i feddwl am wahanu a dychwelyd, i feddwl am sut rydyn ni wedi dychwelyd i gymryd pobl eraill yn ganiataol fel petai'r pandemig heb ddigwydd erioed, bod ag agweddau afiach tuag at eraill am gyfnod rhy hir, a theimlo rhagor o gariad Duw tuag atoch chi. Trowch at lyfr Luc, pennod 15, adnodau 11–32.

Gobeithio y cewch chi fis Mai llawen. Dewch aton ni i eglwys St Dyfnog, Llanrhaeadr lle mae gwasanaeth cymun ar fore Mercher am 10.30, neu ar fore Sul am 11.15 yn eglwys St Tyrnog, neu sawl eglwys arall yn yr Ardal Genhadu. Mae'r manylion ar gylchlythyr yr Ardal Genhadu ym mhorth yr eglwys. Wrth ddod ynghyd fel hyn, mae pawb yn parhau i dyfu i garu ei gilydd. Mewn byd sy'n rhy lawn o lawer o dyndra, rwy'n argymell yn daer yr heddwch a'r daioni a roddir yn hael.

**Y Parch. Martin Pritchard**
**Offeiriad Ardal Genhadu Dinbych**



# Cyngor Cymuned Llandyrnog

Trafodwyd y materion canlynol yng nghyfarfod mis Ebrill:

- Mae'r sgrin a'r camera newydd wedi'u gosod ac mae'r diolch i John McGuire am drefnu hyn – bydd y cyngor yn gallu cael cyfarfodydd hybrid rŵan. Mae cais wedi cael ei roi i ddefnyddio'r offer newydd ar gyfer clwb ffilmiau. Mae'r Cyngor o blaid yr egwyddor, ar yr amod bod tystiolaeth ar gael o gefnogaeth i'r syniad cyn prynu'r drwydded a'r offer i alluogi hyn.
- Daeth beiciwr modur oddi ar ei fotobeic o ganlyniad uniongyrchol i daro'r mẁd a'r llanast ar y ffordd ger Cross Keys ar 6 Ebrill. Yn ffodus, ni chafodd anafiadau difrifol. Mae'r Cyngor Cymuned yn mynd i roi pwysau ar y Cyngor Sir i fynd at wraidd y broblem o ormod o ddŵr yn rhedeg oddi ar y caeau cyfagos. Roedd y dŵr hwn hefyd wedi achosi llifogydd o dan loriau Tŷ Capel Dyffryn.
- Mae cyfarwyddwr rheoli Procter Johnson wedi cytuno i godi baner i gofnodi D-Day ar safle'r hen hufenfa, yn barod ar gyfer 6 Mehefin.
- Penderfynwyd cyfrannu £100 i Sefydliad y Merched i brynu blodau – mae aelodau'r mudiad yn mynd i 'fabwysiadu' ambell fasged grog o gwmpas y pentre i roi ychydig o liw iddo. Hefyd penderfynwyd dau botyn i blannu blodau y naill ochr i'r fainc ger croesffordd Celynog ac i gael gwared ar yr un pren.
- Cafwyd cyfarfod ar 18 Ebrill yn yr Ystafelloedd Coco gyda Mr Shuker a roddodd gyngor ar sut i gael arian i dalu am system wresogi a defnydd inswleiddio gwell.
- Soniodd y Cyngh. Williams a McGuire am gyfarfod Un Llais Cymru roedden nhw wedi bod ynddo yn ddiweddar.
- Roedd y Cyngor Cymuned wedi awgrymu wrth yr ysgol y gallai roi polyn fflag iddi i ddathlu'r dyddiau swyddogol niferus. Roedd yr ateb yn ffafriol iawn gan y byddai o fudd i'r ysgol a'r baneri yn gyfrwng i addysgu. Bydd hyn yn cael ei drafod eto.
- Y sesiwn galw heibio ynglŷn â'r drefn newydd i gasglu sbwriel ar 24 Ebrill – mae'r Cyngor Cymuned wedi gofyn i'r Cyngor Sir am ei bolisi ynghylch ffyrdd heb eu mabwysiadu, ond heb gael ateb eto. Ond y farn yw y byddai cartrefi unigol sydd wedi'u heffeithio wedi cael llythyr yn esbonio'r drefn.
- Mae'r Cyngor wedi cael diwygiad i'r cais am annedd amnewid – codi annedd yn lle un arall, ac fe gafodd ei drafod. Er bod y mynediad iddi yn well na'r cais blaenorol, roedd barn y Cyngor ynghylch a oedd y diwygiad i faint yr annedd yn 'fân ddiwygiad' yn farn bersonol. Caiff y Swyddog Achos benderfynu a yw'r diwygiad yn cydymffurfio â'r nodyn cyngor technegol sy'n berthnasol i anheddau amnewid.
- Roedd pryderon am ddŵr yn hel ger Maes y Wern a'r dŵr sy'n hel oddi ar glan y Wern Isa/y ganolfan trin carthffosiaeth a bydd y rhain yn cael eu mynegi i'r awdurdodau perthnasol. Er bod y Cyngor Cymuned yn gwerthfawrogi cyfyngiadau ar yr awdurdod lleol, mae'r cynghorwyr yn teimlo dyletswydd i dynnu sylw at y fath faterion.